

**Hosbis St Kentigern
Ffordd Uchaf Dinbych
Llanelwy
LL17 0RS**

Adroddiad Arolygu 2010-2011

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk



Dyddiad yr Arolygiad:	Rheolwr Arolygu ac Adolygwyr:
25 Mawrth 2011	Mr John Powell a Ms Jennifer Kwakwa

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). AGIC sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru sydd, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi'u dynodi fel yr awdurdod cofrestru.

I gofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos cydymffurfiaid â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae AGIC yn profi cydymffurfiaid darparwyr trwy asesu pob asiantaeth a sefydliad cofrestredig yn erbyn cyfres o '*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau iechyd annibynnol. Gellir gweld mwy o wybodaeth ynglŷn â'r safonau a'r rheoliadau ar ein gwefan:

www.hiw.org.uk.

Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad hwn yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser.

Cefndir a'r Prif Ganfyddiadau

Cynhaliwyd arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ar gyfer Hosbis Sant Cyndeyrn ar 25 Mawrth 2011 gan reolwr arolygu ac un o adolygwyr gofal iechyd annibynnol AGIC. Cofrestrwyd yr hosbis am y tro cyntaf ar 4 Ionawr 1995 i ddarparu gwasanaethau Ysbyty Dydd, ac ar 18 Rhagfyr 2000 i ddarparu gwasanaethau Cleifion Mewnol. Mae'r Hosbis yn darparu gofal seibiant a gofal lliniarol i oedolion sy'n dioddef o gyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywyd. Ar adeg yr ymweliad arolygu, roedd yr hosbis yn mynd trwy gyfnod o newid, ac yn derbyn hyd at 4 o gleifion mewnol yn unig. Ym mis Awst 2011, hysbyswyd AGIC bod nifer y cleifion a oedd yn cael eu derbyn wedi cynyddu i chwech.

Fel rhan o'r broses arolygu, cyflwynodd y darparwr cofrestredig amrywiaeth o ddogfennau ategol i ddangos sut yr oedd yr Hosbis yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar ddadansoddi amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys archwilio cofnodion cleifion a thrafod gydag Ymarferydd Nyrsio Uwch yr Hosbis ac amrywiaeth o aelodau staff a oedd yn gweithio yn yr ysbyty. Cyfwelwyd nifer o gleifion hefyd, ac mae adborth gan gleifion a staff wedi ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn.

Mae'r hosbis yn adeilad pwrpasol sydd wedi ei leoli ar dir Ysbyty HM Stanley yn Llanelwy. Roedd yn darparu gofal i gleifion mewnol a gofal dydd, ac roedd y rhain yn cael eu rheoli mewn mannau ar wahân â choridor yn cysylltu'r ddau fan. Roedd y gwasanaeth i gleifion mewnol yn cael ei *'arwain gan nyrsys'*, ac nid oedd unrhyw staff meddygol yn y safle am y rhan fwyaf o'r amser. Ymarferwyr Nyrsio Uwch oedd yn asesu ac yn adolygu cleifion. Roedd y wybodaeth ysgrifenedig am y meini prawf cymhwysedd wedi newid, ac roedd y meini prawf newydd wedi eu nodi yn y polisi gweithredol dros dro ar gyfer y gwasanaethau clinigol yn yr hosbis. Nid yw'r hosbis yn derbyn cleifion ag *'anghenion cymhleth'* ers mis Hydref 2010, ac mae hyn wedi arwain at dderbyn atgyfeiriadau ar sail dau faen prawf - bod cyflwr y claf yn derfynol, ac ar gyfer gofal seibiant. Roedd angen bod yn eglur ynglŷn ag ystyr *'anghenion cymhleth'* a *'gofal diwedd oes'*, a llunio diffiniad ysgrifenedig. Yn ogystal, nid oedd unrhyw eglurder ynglŷn â'r hyn a fyddai'n digwydd pan fyddai un o gleifion mewnol yr hosbis, a oedd wedi bodloni'r meini prawf cychwynnol, yn datblygu anghenion gofal cymhleth.

O ran prif ganfyddiadau'r arolygiad, roedd y darparwr cofrestredig wedi sefydlu'r canlynol:

- Datganiad o Ddiben cynhwysfawr iawn a oedd yn rhoi manylion am yr amrywiaeth o wasanaethau a oedd ar gael yn yr ysbyty, gan gynnwys y triniaethau a'r gwasanaethau a ddarperid. Roedd Canllaw i Gleifion hefyd ar gael. Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer cleifion, gofalwyr, ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill.

- Dogfennau gofal cynhwysfawr iawn, ac roedd y cynlluniau gofal yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Roedd nodiadau'r cleifion yn adlewyrchu cyfraniad y tîm amlasiantaethol. Roedd llwybr gofal yr hosbis ar gyfer dyddiau olaf oes yn llywio'r arferion gwaith ac yn cofnodi dymuniadau'r cleifion. Roedd cyffuriau lleddfu poen yn cael eu rhagnodi gan feddyg, ac roedd hyn yn cael ei fonitro a'i adolygu'n barhaus. Nodwyd bod y cleifion hefyd yn llofnodi i gytuno i ymyraethau gofal fel y'u nodwyd yn eu cynllun gofal, a chymeradwywyd yr arfer hwn.
- Amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau, gyda dyddiad eu llunio a'u hadolygu wedi ei nodi arnynt. Roedd tystiolaeth eglur ar gael i ddangos bod ystod o bolisiâu, gan gynnwys cadw cofnodion, chwythu'r chwiban, a therapïau cyflenwol wedi eu hadolygu a'u diweddarau. Fodd bynnag, dim ond unwaith yr oedd y staff wedi llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall yr holl ddogfennau, ac yn achos un aelod o staff, nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i ddangos ei fod/bod wedi darllen a deall unrhyw un o'r polisiâu a'r gweithdrefnau. Dywedwyd wrth y rheolwr arolygu bod y Rheolwr Cofrestredig yn y broses o gael llofnodion y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen pob polisi. Yn ogystal, nid oedd unrhyw bolisi na gweithdrefn wedi ei sefydlu ynglŷn â sut i ymateb i gyfarwyddiadau ymlaen llaw.
- Roedd rhaglen addysg a hyfforddiant parhaus wedi ei sefydlu ar gyfer y staff a oedd yn gweithio yn yr hosbis, ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o feysydd, megis cynnal bywyd sylfaenol, diffribilio, gyrwyr chwistrell, codi a chario, lechyd a Diogelwch cyffredinol, a gofal lliniarol. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o'r staff heb ddilyn hyfforddiant diweddar ar reoli heintiau, Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA), amddiffyn plant, yr hyn a olygir wrth gŵyn, a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. Roedd dau aelod o staff heb ddilyn hyfforddiant ar atal tân. Dywedwyd hefyd wrth y tîm arolygu nad oedd y nyrs a oedd â chyfrifoldeb penodol am reoli heintiau wedi llwyr ddiweddarau ei gwybodaeth am y maes hwn, ac yr esgeuluswyd y cysylltiadau ffurfiol â'r tîm allanol rheoli heintiau.
- Roedd amrywiaeth o weithgareddau/therapïau ar gael ar gyfer cleifion dydd a chleifion mewnol, gan gynnwys gwasanaeth cwnsela, cefnogaeth ysbrydol,

therapi cyflenwol, therapi creadigol, lleferydd, trin gwallt a materion cyfoes.

Yn ogystal, roedd therapydd celf ar gael am un diwrnod yr wythnos.

- Roedd nifer o feysydd wedi bod yn destun archwiliad, gan gynnwys aflonyddwch terfynol, y system llwybr gofal a'r drefn o reoli meddyginiaeth. Roedd y modd y gweithredir canllawiau cenedlaethol yn Hosbis Sant Cyndeyrn yn cael ei fonitro a'i gydgysylltu trwy'r Grŵp Llywodraethu Clinigol. Fodd bynnag, nid oedd y rhaglenni archwilio yn cynnwys cyflwyno dangosyddion perfformiad, gwerthuso o gymharu â chanfyddiadau gwaith ymchwil, ac arfer wedi ei seilio ar dystiolaeth.
- Câi arolygon cleifion eu cynnal, ac roedd yr holiaduron a lenwyd yn cael eu dadansoddi'n ganolog. Roedd y canlyniadau ar gael bob tri mis, a gwelwyd, wrth ddadansoddi'r canlyniadau, bod lefelau boddhad ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperid yn Hosbis Sant Cyndeyrn yn uchel.
- Roedd tystiolaeth eglur ar gael i ddangos bod y broses o reoli cyflyrau penodol cleifion yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinogol (NICE).
- Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth am ganser a gofal lliniarol. Roedd rhwydwaith da o wasanaethau cymorth wedi ei sefydlu hefyd ar gyfer cleifion a'u perthnasau.
- Roedd gwybodaeth allweddol ar gael i'r hosbis, ond nodwyd mai ail fersiwn y Fformiwlâu Gofal Lliniarol penodol yr oedd y staff yn ei defnyddio, a bod trydedd fersiwn ar gael. Hysbyswyd yr arolygwyr ar ôl hynny fod y drydedd fersiwn ar gael yn electronig, a bod trydedd fersiwn y Fformiwlâu Gofal Lliniarol wedi ei phrynu.
- Gallai'r Ymarferydd Nyrsio Uwch gael gafael ar gymorth gan y wefan palliative.drugs.com ac roedd canllawiau ar feddyginiaeth, polisïau, trafodaethau bwletin i ddatrys problemau, a gwybodaeth am addysg ac arfer gorau ar gael yno.
- Roedd y weithdrefn gwyno ar gael yn rhwydd, ac roedd y staff yn cael gwybod am hyn yn ystod y broses hyfforddiant sefydlu.
- Roedd proses hyfforddiant sefydlu gynhwysfawr wedi ei sefydlu ar gyfer y gwahanol ddisgyblaethau o staff, ac roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau cyfnod chwe mis o hyfforddiant sefydlu.

O ran canfyddiadau eraill yr arolygiad, roedd sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag agwedd y grŵp staff a'r cymorth a gafwyd ganddynt.

O ran darpariaeth gofal lliniarol i gleifion a oedd yn mynychu'r gwasanaeth gofal dydd, y prif arweinydd penodedig oedd yr arweinydd gofal dydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw aelod o staff wedi ei benodi fel y prif gyswllt ar gyfer cleifion mewnol. Y rheswm a roddwyd dros hyn oedd bod staff amser llawn yn gweithio tri diwrnod hir yr wythnos ar y pryd, ac felly y gallai unrhyw aelod o staff a enwebir beidio â bod ar ddyletswydd am bedwar diwrnod. Yn ogystal, gallai hyn ddigwydd am fwy na phedwar diwrnod yn achos staff rhan-amser. Fodd bynnag, dywedodd pob aelod o'r staff yn glir eu bod yn adnabod yr holl gleifion yn dda iawn. O safbwynt y cleifion, mae'n hynod werthfawr magu perthynas therapiwtig a nodi un nyrs sy'n benodol ac yn gyson gyfrifol am eu gofal nyrsio yn gyffredinol. O ganlyniad, mae angen adolygu'r maes hwn.

Archwiliwyd sampl ar hap o ffeiliau'r staff, ac roedd y dogfennau canlynol ar gael yn y ffeiliau: ffurflenni cais, tystlythyrau, copi o nodiadau cyfweld, tystiolaeth i ddangos bod archwiliadau wedi eu cynnal gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, a chadarnhad bod y nyrsys cofrestredig wedi eu cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Roedd strwythur trefniadaethol a rheolaethol eglur wedi ei sefydlu ar gyfer Hosbis Sant Cyndeyrn, ac roedd ystod o ddisgyblaethau yn cael ei defnyddio yn y sefydliad. Roedd gan reolwr cofrestredig yr hosbis gylch gwaith rheoli eglur, ac Ymarferydd Nyrsio Uwch oedd yr arweinydd clinigol ar gyfer darparu'r gofal. Roedd gan yr Ymarferydd Nyrsio Uwch y wybodaeth a'r sgiliau priodol i gyflawni'r swyddogaeth ganolog hon. Roedd y swyddogaeth hon yn cael ei chefnogi gan nifer o nyrsys cofrestredig a oedd wedi dilyn hyfforddiant penodol mewn gofal lliniarol.

Nid oedd yr Hosbis yn darparu gwasanaethau gofal lliniarol i blant, ond mae plant yn dod i ymweld, ac roeddent yn cael cefnogaeth profedigaeth gan gwnselydd wedi'i hyfforddi. Roedd y Cwnselydd wedi dilyn hyfforddiant a chysiau diweddar ar amddiffyn plant, ac roedd yn gweithio yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Fforwm Amddiffyn Plant Gogledd Cymru.

O ran rheoli meddyginiaeth, edrychwyd yn gryno ar y drefn o archebu, cadw, defnyddio a chael gwared ar feddyginiaethau. Roedd yr hosbis yn cael ei chynorthwyo gan adran fferyllol Ysbyty Glan Clwyd, ac roedd y cyfrifoldeb dros archebu, cadw a rheoli meddyginiaeth wedi ei ddiffinio'n eglur. Gwelwyd bod y meddyginiaethau'n cael eu cadw dan glo yn ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd meddyginiaethau y daeth y cleifion â hwy i'r ysbyty yn cael eu cadw mewn blychau meddyginiaeth unigol a oedd wedi eu labelu ag enwau'r cleifion ac yn cael eu cadw dan glo yn y cwpwrdd meddyginiaeth. Roedd cyflenwadau cyfyngedig o *'Gyffuriau Rheoledig'* yn cael eu cadw yn y sefydliad, ac roedd Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain, dyddiedig mis Medi 2010, ar gael fel ffynhonnell gyfeirio berthnasol. Roedd cofnod meddyginiaeth yn cael ei gadw ar gyfer pob un o'r cleifion. O ran hunanfeddyginiaethu, roedd y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad arolygu yn dweud yn glir nad oeddent yn teimlo ei bod yn briodol i gleifion roi meddyginiaeth iddynt eu hunain, o safbwynt monitro'n ddiogel, cofnodi a rheoli cyflenwadau. Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad ynglŷn â hunanfeddyginiaethu gael ei wneud trwy edrych ar bob achos yn unigol, a thrwy ddefnyddio dull wedi ei seilio ar risg. Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ynglŷn â rheoli meddyginiaeth ar gael yn y sefydliad.

Ceir cyntedd y tu mewn i fynedfa'r hosbis, ac mae'r dderbynfa wedi ei lleoli yn yr ardal hon er mwyn sicrhau y gellir gweld a chroesawu'r bobl sy'n dod i mewn i'r adeilad. Mae'r holl gyfleusterau wedi eu lleoli ar y llawr gwaelod. Mae'r uned cleifion mewnol yn darparu amgylchedd hamddenol, cynnes a dymunol, ac mae rhai o'r ystafelloedd gwely yn edrych allan ar ardd hyfryd iawn. Mae'n bosibl mynd i ystafelloedd ymolchi a thai bach o'r ystafelloedd gwely, ac maent yn ddigon mawr ac yn cynnwys baddonau/cawodydd arbenigol. Mae offer codi a chario ar gael i helpu i ofalu am y cleifion. Mae'r addurno yn yr ystafelloedd gwely yn siriol, ac anogir y cleifion i ddod ag eiddo personol gyda hwy. Mae'r uned gofal dydd yn cynnwys lolfafawr, ac mae nifer o ystafelloedd llai yn yr uned ar gyfer darparu gwahanol therapïau. Yn ogystal, cymerwyd sampl ar hap o dymheredd y dŵr yn ystod yr ymweliad, ac roedd y tymheredd yn amrywio rhwng 43 a 60 gradd Celsius. Roedd y maes hwn yn cael ei adolygu gan yr adran ystadau. Roedd nifer o silindrau ocsigen gwag yn cael eu cadw yn yr awyr agored, wrth ymyl y system awyru ar gyfer y peiriannau sychu yn

y golchdy. Roedd y silindrau hyn yn boeth, ac o ganlyniad, mae angen eu symud i rywle mwy addas.

Roedd y gwasanaeth arlwygo ar gyfer y cleifion yn darparu dewis ac amrywiaeth o brydau bwyd, ac roedd cylch o fwydlenni'n cael ei ddefnyddio. Roedd ffrwythau a diodydd poeth ar gael trwy gydol y dydd, ac roedd y gegin wedi ei lleoli yn rhan ganol Hosbis Sant Cyndeyrn. Roedd y prif gogydd yn sicrhau ei fod yn cydlynu'n effeithiol â rheolwr yr hosbis a'r cleifion ynglŷn â'r dewis o brydau bwyd, ac roedd yn amlwg y darperir ar gyfer amrywiaeth o ddeietau arbennig. Roedd y bwyd yn ymddangos yn flasus, ac roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a'r staff yn gadarnhaol iawn. Roedd cyngor deietegol ar gael gan y deietegydd a oedd yn cael ei chyflogi gan y Bwrdd Iechyd.

Roedd proses wedi ei sefydlu i uwch aelod o staff gadarnhau gwybodaeth a dderbynnir gan yr Asiantaeth Dyfeisiau Meddygol, a gweithredu unrhyw gamau gofynnol.

Cedwir cofnodion cleifion mewn ystafell ar y llawr cyntaf mewn cypyrddau metel, ac yna, maent yn cael eu harchifo yn y llofft, gan gofnodi'r dyddiadau a'r rhifau hosbis. Mae nifer o bolisiau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu ynglŷn â chofnodion, gan gynnwys rheoli gwybodaeth, mynediad cleifion at gofnodion, a chreu, rheoli, cadw a dinistrio cofnodion.

Mae'n rhaid nodi bod y tîm rheoli'n ymateb yn dda trwy gynllunio camau gweithredu er mwyn bodloni gofynion rheoliadol.

Hoffai'r rheolwr arolygu ddiolch i'r Ymarferydd Nyrsio Uwch, y staff a'r cleifion am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad arolygu.

Llwyddiannau a Chydymffurfiad

Nodwyd tri gofyniad rheoliadol yn yr adroddiad arolygu blaenorol. Derbyniwyd cynllun gweithredu, ac roedd y gofynion rheoliadol i gyd wedi derbyn sylw.

O ran y llwyddiannau, roedd yr hosbis wedi bod dan bwysau ariannol sylweddol, ac roedd polisi gweithredol dros dro wedi ei lunio a'i roi ar waith. Roedd yr hosbis yn elwa ar y dull hwn o weithredu gan ei bod yn ddiweddar wedi cynyddu nifer y cleifion mewnol a fyddai'n derbyn llety.

Mathau o Gofrestriad

Caniateir y cofrestriad hwn yn unol â'r math o wasanaeth a ddarperir. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y math canlynol o wasanaeth:

Y math o wasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty annibynnol:

- **Gofal Iliniarol – Hosbis i oedolion.**

Amodau'r Cofrestriad

Mae'r cofrestriad hwn yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol. Archwilir pob amod ar gyfer cydymffurfiaid. Disgrifir y dyfarniad fel bod yn Cydymffurfio, Ddim yn Cydymffurfio neu Sicrwydd Annigonol.

Rhif yr Amod	Amod y Cofrestriad	Dyfarniad
1.	Ni chaiff cyfanswm yr unigolion 18 oed a hŷn sy'n derbyn llety ar unrhyw adeg yn yr Ysbyty fod yn fwy nag Wyth (8) o gleifion mewnol, a Phymtheg (15) o gleifion dydd.	Cydymffurfio

Asesiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal archwiliadau o safleoedd er mwyn asesu safonau. Pe byddem yn canfod meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol neu lle nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau, neu nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddangos y cyflawnir y lefel ofynnol o berfformiad, rhoddir gwybod i'r unigolyn cofrestredig am hyn drwy gyfrwng yr adroddiad arolygu hwn. Gall fod achlysuron hefyd pan ganfyddir methiannau mwy difrifol neu sydd angen sylw di-oed, ac efallai bod yr unigolyn cofrestredig hefyd wedi'i hysbysu ynglŷn â'r canfyddiadau a'r camau sydd i'w cymryd trwy lythyr, ond bydd y materion hynny

hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu hwn. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn penderfynu ar yr angen i arolygu'r sefydliad a pha mor aml y dylid gwneud hynny ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani ers cynnal yr arolygiad diwethaf. Cyn cynnal arolygiad, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am unigolyn cofrestredig. Gallai hyn gynnwys: hunanasesiad yn erbyn y safonau, canfyddiadau'r adroddiad arolygu blaenorol ac unrhyw gynllun gweithredu a gyflwynwyd, adroddiadau ynglŷn ag ymweliadau'r darparwr, y Datganiad o Ddiben ar gyfer y sefydliad neu'r asiantaeth, ac unrhyw gwynion neu wybodaeth sy'n peri pryder am yr unigolyn cofrestredig a'r gwasanaethau.

Wrth asesu pob safon, yr ydym yn defnyddio pedwar datganiad i nodi'r canlyniad:

Safon wedi'i bodloni	Dim diffygion: yn cyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.
Safon bron wedi'i bodloni	Mân ddiffygion: dim diffygion mawr a'r lefelau gofynnol o berfformiad yn ymddangos yn gyraeddadwy heb orfod cymryd camau ychwanegol o bwys.
Safon heb ei bodloni	Diffygion difrifol: angen cymryd camau sylweddol i gyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.
Safon heb ei harolygu	Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y safon yn berthnasol, neu oherwydd na nodwyd unrhyw risg yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y sefydliad neu'r asiantaeth neu am y sefydliad neu'r asiantaeth, ac felly penderfynwyd nad oedd angen archwilio'r safon ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn.

Asesiadau a Gofynion

Mae'r asesiadau wedi eu rhoi mewn grwpiau dan y penawdau canlynol, a cheir cyfeirnod ar gyfer pob safon.

- Safonau Craidd
- Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth

Talfyriadau ar gyfer y Safonau:

C = Safonau craidd

A = Safonau aciwt

MH = Safonau iechyd meddwl

H = Safonau hosbis

MC = Safonau mamolaeth

TP = Safonau terfynu beichiogrwydd

P = Safonau technegau a thechnoleg rhagnodedig

PD = Safonau meddygon preifat

Os nad yw'r unigolyn cofrestredig wedi llwyr fodloni unrhyw un o'r safonau isod, yr ydym wedi nodi ein canfyddiadau a'r camau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliad penodol ar ddiwedd yr adroddiad. Gall peidio â chydymffurfio â rheoliad fod yn drosedd. Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r arolygydd yn ystod y digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser. Weithiau bydd gwasanaethau'n gwella ac weithiau byddant yn dirywio.

Safonau Craidd

Rhif	Testun y Safon	Asesiad
C1	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth eglur a chywir am eu triniaeth.	Safon wedi'i bodloni
C2	Mae'r driniaeth a'r gofal a ddarperir yn rhoi'r claf yn gyntaf.	Safon bron wedi'i bodloni
C3	Mae'r triniaethau a roddir i gleifion yn unol â chanllawiau clinigol perthnasol	Safon wedi'i bodloni
C4	Sicrheir cleifion bod ansawdd y driniaeth a'r gofal yn cael ei fonitro.	Safon bron wedi'i bodloni
C5	Ymdrinnir â gofal terfynol a marwolaeth cleifion yn briodol ac yn sensitif.	Safon wedi'i bodloni
C6	Mae'r sefydliad yn cael barn cleifion ac yn defnyddio'r wybodaeth wrth ddarparu triniaeth a gofal, ac ar gyfer darpar gleifion.	Safon wedi'i bodloni
C7	Mae polisïau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cynorthwyo i sicrhau ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau.	Safon bron wedi'i bodloni
C8	Sicrheir cleifion bod y sefydliad neu'r asiantaeth yn cael ei redeg/rhedeg gan sefydliad/unigolyn addas a bod llinell eglur o atebolrwydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau.	Safon wedi'i bodloni
C9	Mae cleifion yn derbyn gofal gan staff sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon bron wedi'i bodloni
C10	Mae cleifion yn derbyn gofal gan nyrsys sydd wedi eu cofrestru'n briodol sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol i ddarparu gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol.	Safon wedi'i bodloni
C11	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon bron wedi'i bodloni
C12	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol.	Safon wedi'i bodloni
C13	Nid yw'r cleifion na phersonél wedi eu heintio â firysau a gludir yn y gwaed.	Safon wedi'i bodloni
C14	Caiff plant sy'n derbyn triniaeth eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon heb ei harolygu
C15	Caiff oedolion sy'n derbyn gofal eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon bron wedi'i bodloni
C16	Mae proses gwyno effeithiol ar gael i gleifion.	Safon bron wedi'i bodloni
C17	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â sut i wneud cwyn.	Safon wedi'i bodloni
C18	Mae'n ddyletswydd ar staff a phersonél i fynegi pryderon ynglŷn ag arfer amheus neu wael.	Safon wedi'i bodloni

Rhif	Testun y Safon	Asesiad
C19	Mae cleifion yn derbyn triniaeth mewn safle sy'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer y driniaeth honno. Darperir amgylchedd addas i blant a dderbynnir neu sy'n mynychu'r safle i gael triniaeth.	Safon bron wedi'i bodloni
C20	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ddefnyddio offer a chyflenwadau sy'n ddiogel ac mewn cyflwr da.	Safon wedi'i bodloni
C21	Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwyio priodol.	Safon wedi'i bodloni
C22	Sicrheir cleifion, staff ac unrhyw un sy'n dod i ymweld â'r safle cofrestredig y caiff yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad, y triniaethau a'r gwasanaethau eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol.	Safon wedi'i bodloni
C23	Mae'r camau iechyd a diogelwch priodol wedi eu sefydlu.	Safon heb ei harolygu
C24	Mae camau wedi eu sefydlu i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli a'u trin yn ddiogel.	Safon wedi'i bodloni
C25	Caiff meddyginiaethau, rhwymau a nwyon meddygol eu trin mewn modd saff a diogel.	Safon wedi'i bodloni
C26	Caiff cyffuriau rheoledig eu cadw, eu rhoi a'u dinistrio yn briodol.	Safon wedi'i bodloni
C27	Mae'r risg i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal haint a gafwyd yn yr ysbyty yn cael ei lleihau cymaint â phosibl.	Safon bron wedi'i bodloni
C28	Ni roddir triniaeth i gleifion drwy ddefnyddio dyfeisiau meddygol halogedig.	Safon wedi'i bodloni
C29	Caiff cleifion eu dadebru'n briodol ac yn effeithiol.	Safon wedi'i bodloni
C30	Mae contractau'n sicrhau bod cleifion yn derbyn nwyddau a gwasanaethau o ansawdd priodol.	Safon wedi'i bodloni
C31	Caiff cofnodion eu creu, eu cynnal a'u storio i safonau sy'n bodloni cydymffuriad cyfreithiol a rheoliadol ac argymhellion arfer proffesiynol.	Safon wedi'i bodloni
C32	Sicrheir cleifion y cwblheir cofnodion iechyd yn briodol.	Safon wedi'i bodloni
C33	Rhoddir sicrwydd i gleifion y rheolir yr holl wybodaeth o fewn y corff rheoledig er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion.	Safon wedi'i bodloni
C34	Caiff unrhyw waith ymchwil a gynhelir yn y sefydliad / asiantaeth ei gynnal gyda chaniatâd priodol y cleifion perthnasol, yn unol â chanllawiau cyhoeddedig ynglŷn â chynnal prosiectau ymchwil.	Safon heb ei harolygu

Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth – mae'r rhain yn benodol i'r math o sefydliad a archwiliwyd

Rhif	Safonau Hosbis	Asesiad
H1	Trefniadau ar gyfer gofal mewn hosbisau	Safon bron wedi'i bodloni
H2	Arbenigedd mewn gofal lliniarol a hyfforddiant ar gyfer timau ambroffesiynol	Safon wedi'i bodloni
H3	Asesiad o anghenion y claf a'r gofalydd	Safon wedi'i bodloni
H4	Darparu gofal lliniarol	Safon bron wedi'i bodloni
H5	Cofnodion gofal	Safon wedi'i bodloni
H6	Rheoli heintiau	Safon bron wedi'i bodloni
H7	Dadebru	Safon wedi'i bodloni
H8	Cyfrifoldeb dros wasanaethau fferyllol	Safon wedi'i bodloni
H9	Archebu, cadw, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau	Safon wedi'i bodloni
H10	Rhoi meddyginiaethau	Safon wedi'i bodloni
H11	Hunanfeddyginiaethu	Safon bron wedi'i bodloni
H12	Cadw a chyflenwi nwyon meddygol	Safon bron wedi'i bodloni
H13	Asesu a gofalu am blant	Safon heb ei harolygu
H14	Cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer staff sy'n gofalu am blant	Safon heb ei harolygu
H15	Yr amgylchedd gofal i blant	Safon heb ei harolygu

Atodlenni Gwybodaeth

Mae'r atodlenni gwybodaeth yn nodi manylion y wybodaeth y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig ei darparu, ei chadw neu ei chofnodi mewn cofnodion penodol.

Atodlen	Manylion	Asesiad
1	Gwybodaeth i'w chynnwys yn y Datganiad o Ddiben.	Bodlonwyd
2	Gwybodaeth ofynnol yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno rhedeg, rheoli neu weithio mewn sefydliad.	Bodlonwyd
3 (Rhan I)	Y cyfnod gofynnol ar gyfer cadw cofnodion meddygol.	Bodlonwyd
3 (Rhan II)	Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw i'w harchwilio.	Bodlonwyd
4 (Rhan I)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi ynglŷn â chleifion sy'n derbyn gwasanaethau obstetreg.	Amherthnasol
4 (Rhan II)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi am blentyn a anwyd mewn ysbyty annibynnol.	Amherthnasol

Gofynion

Mae'r gofynion isod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a ganfuwyd o ganlyniad i asesu'r safonau a nodir yn y golofn ar y chwith, a gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani. Cyfrifoldeb yr '*unigolyn cofrestredig*' yw'r gofynion, a chaiff yr unigolyn hwn fod naill ai'r darparwr cofrestredig neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig ddarparu '*cynllun gweithredu*' yn cadarnhau sut y mae'n bwriadu cyflawni'r camau gofynnol, a bydd yr Arolygiaeth, os oes angen, yn cymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r rheoliad a nodwyd.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C4	16 (1)	Canfyddiadau Nid oedd y rhaglenni archwilio yn cynnwys cyflwyno dangosyddion perfformiad, gwerthuso o gymharu â chanfyddiadau gwaith ymchwil, ac arfer wedi ei seilio ar berfformiad. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y rhaglenni archwilio yn cynnwys cyflwyno dangosyddion perfformiad, gwerthuso o gymharu â chanfyddiadau gwaith ymchwil, ac arfer wedi ei seilio ar berfformiad.	O fewn 3 mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.
C15, C16, C19, C27	17 (2) (a)	Canfyddiadau Roedd nifer sylweddol o'r staff heb ddilyn hyfforddiant ar reoli heintiau, Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, amddiffyn plant, yr hyn a olygir wrth gŵyn, a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn dilyn hyfforddiant ar reoli heintiau, Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, amddiffyn plant, yr hyn a olygir wrth gŵyn, a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.	O fewn 28 diwrnod i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.
C19		Canfyddiadau Cymerwyd sampl ar hap o dymheredd y dŵr yn ystod yr ymweliad, ac roedd y tymheredd yn amrywio rhwng 43 a 60 gradd Celsius. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod tymheredd diogel yn cael ei fonitro a'i gynnal o ran cyflenwadau dŵr poeth.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
H1	14 (1) (a) a 15 (1)	Canfyddiadau Nid oedd yr hosbis yn derbyn cleifion ag <i>'anghenion cymhleth'</i> ers mis Hydref 2010, ac roedd hyn wedi arwain at dderbyn atgyfeiriadau ar sail dau faen prawf - bod cyflwr y claf yn derfynol, ac ar gyfer gofal seibiant. Yn ogystal, nid oedd unrhyw eglurder ynglŷn â'r hyn a fyddai'n digwydd pan fyddai un o gleifion mewnol yr hosbis, a oedd wedi bodloni'r meini prawf cychwynnol, yn datblygu anghenion gofal cymhleth. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau ei bod yn eglur beth fyddai'n digwydd pan fyddai un o gleifion mewnol yr hosbis, a oedd wedi bodloni'r meini prawf cychwynnol, yn datblygu anghenion gofal cymhleth.	O fewn 28 diwrnod i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.
H11	14 (1) (a) a (5)	Canfyddiadau O ran hunanfeddyginiaethu, roedd y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad arolygu yn dweud yn glir nad oeddent yn teimlo ei bod yn briodol i gleifion roi meddyginiaeth iddynt eu hunain, o ran monitro'n ddiogel, cofnodi a rheoli cyflenwadau. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y gwneir unrhyw benderfyniad ynglŷn â hunanfeddyginiaethu trwy edrych ar bob achos yn unigol a defnyddio dull wedi ei seilio ar risg.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.
H12	24 (2) (ch)	Canfyddiadau Roedd nifer o silindrau ocsigen gwag yn cael eu cadw yn yr awyr agored, wrth ymyl y system awyru ar gyfer y peiriannau sychu yn y golchdy. Roedd y silindrau hyn yn boeth, ac o ganlyniad, mae angen eu symud i rywle mwy addas.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod silindrau ocsigen gwag yn cael eu cadw'n ddiogel.	

Argymhellion

Gall argymhellion fod yn berthnasol i agweddau ar y safonau neu i ganllawiau cenedlaethol. Fe'u gwneir er mwyn i'r unigolion cofrestredig eu hystyried ond ni chânt eu gorfodi yn gyffredinol.

Safon	Argymhelliad
C2	Mae angen sefydlu polisi a gweithdrefn ynglŷn â sut i ymateb i gyfarwyddiadau ymlaen llaw.
C7, C9 ac C11	Dylai pob aelod o'r staff, gan gynnwys ymarferwyr meddygol, ddarllen y polisiâu a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w maes gwaith, a llofnodi datganiad i'r perwyl hwn.
H4	Dylid neilltuo aelod o staff fel y prif gyswllt ar gyfer pob claf a gofalydd.
H6	Dylai'r nyrs a oedd yn benodol gyfrifol am reoli heintiau gael diweddarau ei hyfforddiant yn drylwyr ar y maes hwn, a dylid cynnal cysylltiadau ffurfiol â'r tîm allanol rheoli heintiau.

Diben bodolaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw hybu gwelliant mewn iechyd a gofal iechyd. Mae gennym ddyletswydd statudol i asesu perfformiad sefydliadau gofal iechyd ar gyfer y GIG, a chydgyssylltu adolygiadau gofal iechyd gan eraill. Wrth wneud hyn, ein nod yw lleihau'r baich rheoliadol ar sefydliadau gofal iechyd a chydweddu asesiadau gofal iechyd a ddarperir gan y GIG ag asesiadau'r sector annibynnol (preifat a gwirfoddol).

Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod nad yw ar gyfer adwerthiant masnachol. Dim ond yn ei gyfarwydd y ceir atgynhyrchu'r adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir, ac ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn modd niweidiol na chyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod mai © 2012 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r deunydd, gan nodi teitl y ddogfen. Dylai ceisiadau ar gyfer atgynhyrchu fod yn ysgrifenedig a dylid eu hanfon at: Y Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Tŷ Bevan, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3ED.